**Cofnodion Wedi i Cadarnhau o Gyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**

**Cynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2024, 10:30–13:10**
**yn Capital Quarter 2 a thrwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Diane Crone | (DC) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| **Yn bresennol:** | | |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol |
| Lorna Bennett | (LBe) | Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd (Lleoliadau Addysg) (ar gyfer eitem 3) |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (Dros Dro) |
| Julie Bishop | (JB) | Cyfarwyddwr Gwella Iechyd (ar gyfer eitem 3) |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Tracy Cooper | (TC) | Prif Weithredwr (gadawodd y cyfarfod am 11:31) |
| Angela Cook | (AC) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Nyrsio Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Neil Desmond | (ND) | Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch (ar gyfer eitemau 4.3 a 4.4) |
| Rosemary Fletcher | (RF) | Arweinydd Llywodraethu, Gweithredu Gweithrediaeth y GIG (ar gyfer eitem 8) |
| Tom Fowler | (TF) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cenedlaethol Sgrinio a Diogelu Iechyd |
| Danielle Gething | (DH) | Pennaeth Rheoli Risg (ar gyfer eitem 4.2) |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (gadawodd y cyfarfod am 11:59) |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |

CADARNHAOD

| Ymddiheuriadau | | |
|---|---|---|
| Clare Jenkins | (CJ) | Is-gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Olusola Okhiria | (OO) | Cynrychiolydd Undeb Llafur |
| *Dechreuodd y cyfarfod am 10:30* | | |

| Rhan A | |
|---|---|
| **QSIC 2024.07.24/1** | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** |
| Croesawodd y Cadeirydd bawb i sesiwn gyhoeddus cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.<br><br>Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| **QSIC 2024.07.24/2** | **Datganiad o Fuddiant** |
| Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau'n ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau. | |
| **QSIC 2024.07.24/3** | **Archwiliad Dwfn - Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru** |
| Cyflwynodd JM yr adroddiad a oedd yn amlinellu gwaith a wnaed gan yr Is-adran Gwella Iechyd i sicrhau bod Rhaglen Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles (WNHWPS) yn parhau i fod yn addas i'r diben, yn gallu dangos dylanwad a bod mecanweithiau ar waith i sicrhau darpariaeth ansawdd.<br><br>Soniodd JB am gyflwyno'r gwaith a wnaed ar y rhaglen waith hon ers ei chyflwyno yn 2021, gan gynnwys digwyddiad bord gron ym mis Hydref 2023 a ddaeth â rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r system ynghyd. Amlygodd y digwyddiad bord gron gonsensws cryf ynghylch y farn y dylai ysgolion fod yn amgylcheddau sy'n hybu iechyd a'r angen am ymagwedd ysgol gyfan at iechyd a llesiant.<br><br>Tynnodd LBe sylw at rai elfennau allweddol o'r ffrydiau gwaith a gyflawnwyd fel rhan o raglen WNHWPS, megis:<br><br>• Symud oddi wrth wahanol gynlluniau i weithredu o dan un model cyflawni Cymru Gyfan.<br>• Datblygu set o safonau gofynnol cenedlaethol arfaethedig a oedd wedi'u cefnogi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog dros Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar.<br>• Datblygu fframwaith monitro a gwerthuso.<br><br>Nododd LBe nad oedd unrhyw risgiau wedi'u codi ar gyfer y rhaglen hon.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor sut y byddai effaith y rhaglen hon yn cael ei monitro, ac a fyddai plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn cael eu cynnwys. Nododd JB fod staff sy'n dod o dan y grant i gefnogi ysgolion yn monitro cynnydd ar draws meysydd y fframwaith. Hefyd mae offer fel yr Holiadur Amgylchedd Ysgol yn ein helpu i fesur effaith. Nododd JB hefyd nad oedd plant sy'n cael eu haddysgu gartref o fewn cylch gorchwyl y rhaglen | |

CADARNHAODD

ar hyn o bryd, ond ychwanegodd y gallai gwaith gyda nyrsys ysgol i gysylltu â phlant sy'n cael eu haddysgu gartref fod yn faes i'w ddatblygu yn y dyfodol.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd a oedd y fframwaith yn cynnwys myfyrwyr anabl. Rhoddodd JB sicrwydd fod ysgolion arbennig wedi'u cynnwys yn y rhaglen hon a bod y safonau'n cynnwys cymorth ar gyfer diwallu anghenion dysgu a chorfforol, ond nododd y gallai fod angen mwy o gymorth ar ysgolion prif ffrwd yn hyn o beth.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod cynnydd wedi'i wneud o ran dangos ansawdd ac effaith rhaglen Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles a bod cynllun gwella'n parhau i gael ei roi ar waith.

| QSIC 2024.07.24/4 | Eitemau ar gyfer Sicrwydd |
|---|---|
| **QSIC 2024.07.24/4.1** | **Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Ansawdd** |

Rhoddodd AC drosolwg o'r Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Ansawdd. Roedd yr adroddiad hwn yn gyfuniad o sawl adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith a wnaed ar lywodraethu ansawdd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod Chwarter 1 (Ebrill – 30 Mehefin 2024). Yna cyflwynodd AC bob adran o'r adroddiad, gan dynnu sylw at feysydd penodol i'w hystyried:

<u>Gweithio i Wella (PTR)</u>
Crynhodd AC yr adran Gweithio i Wella, a oedd yn cynnwys y digwyddiadau, cwynion a phryderon yr adroddwyd arnynt ac y gweithredwyd arnynt yn ystod chwarter 1, gan gynnwys:

- Roedd un digwyddiad cenedlaethol a dau adroddiad rhybudd cynnar yn ymwneud â Bron Brawf Cymru.
- Adroddwyd am gyfanswm o 511 o ddigwyddiadau, gyda 6 ohonynt wedi'u hadrodd fel niwed cymedrol, roedd un yn dal i gael ei ymchwilio ac un wedi'i adrodd fel difrifol, ond yn ddiweddarach wedi'i israddio i ddim niwed.
- Cyflwynwyd y nifer uchaf o ddigwyddiadau yr adroddwyd amdanynt o dan 'sbesimenau wedi'u cam-labelu' gan olygu nad oedd samplau'n cael eu prosesu.
- Allan o 72 o ddigwyddiadau agored, roedd 10 ar agor dros 120 diwrnod.
- Cafwyd 29 o gwynion datrysiad eu hunain a oedd yn ostyngiad ar y chwarter blaenorol. Cafodd 25 o'r 29 o gwynion eu datrys o fewn dau ddiwrnod.
- Cafwyd 10 cwyn ffurfiol, cynnydd ar y chwarter blaenorol.
- Cafwyd 104 canmoliaeth.

Trafododd y Pwyllgor:
- Sicrhau bod yr aelod o staff a gyflwynodd y digwyddiad difrifol cyn iddo gael ei israddio yn cael cymorth a hyfforddiant.
- Roedd achosion cwynion yn ymwneud â chyfathrebu. Roedd y rhain yn aml oherwydd llythyrau a anfonwyd i'r cyfeiriad anghywir a phroblemau gyda chael gwybodaeth gan staff dros y ffôn.

<u>Gwaith y Grŵp Diogelu Corfforaethol</u>
Rhoddodd AC ddiweddariad ar waith y Grŵp Diogelu, gan dynnu sylw at y canlynol:

CADARNHAOD

- Adroddwyd am 11 o ddigwyddiadau diogelu yn ystod chwarter 1, a oedd yn cynnwys cynnydd mewn pryderon am gam-drin domestig.
- Nodwyd y byddai modiwl diogelu a chyngor newydd yn cael ei dreialu ar DATIX ym mis Awst 2024.
- Adroddwyd bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant wedi cyrraedd targed Llywodraeth Cymru ar gyfer lefel 1 a 2, ond bod angen gwneud mwy o waith yn ymwneud â hyfforddiant cam-drin domestig.
- Risg ar y gofrestr yn ymwneud â gwiriadau DBS ar gyfer aelodau presennol o staff. Cymeradwywyd newid ar y risg hon gan y Tîm Arwain, sef ei rannu'n sawl risg er mwyn cyfleu gwahanol elfennau'r risg yn well.

Trafododd y Pwyllgor:

- Y posibilrwydd bod y gwaith a wnaed i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig wedi cyfrannu at y gyfradd uwch o adrodd am gam-drin domestig, a'r angen am waith gyda'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol i sicrhau bod hyfforddiant yn y maes hwn yn ddigonol.

<u>Gwaith y Grŵp Atal a Rheoli Heintiau Corfforaethol (IPC)</u>
Rhoddodd AC ddiweddariad ar waith y grŵp IPC Corfforaethol, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am:

- Adroddwyd am 15 digwyddiad yn chwarter 1. Barnwyd bod un digwyddiad wedi achosi niwed cymedrol ac roedd yn dal i gael ei archwilio. Roedd dau ddigwyddiad yn ymwneud â chyswllt â nodwyddau neu wrthrychau miniog.
- Mae materion yn parhau i godi ynghylch cydymffurfiaeth ag arferion halogi o ran canllawiau newydd a'r broses o wneud biopsi yn Bron Brawf Cymru.
- Mae grŵp gorchwyl a gorffen newydd wedi'i sefydlu i ganolbwyntio ar faterion yn ymwneud â dadhalogi ac awyru.
- Nodwyd bod angen rhoi sylw i gydymffurfiad ag archwiliadau IPC mewn rhai safleoedd sgrinio.
- Adroddwyd bod gwaith ar y gweill i wella'r modd y cynhelir archwiliadau ac i gael platfform digidol i gynorthwyo gyda hyn.

Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Derbyn** ac **ystyried** yr Adroddiad Sicrhau Ansawdd.
- **Nodi'r** safonau perfformiad sy'n cael eu cyflawni a meysydd i'w gwella.
- **Cael sicrwydd** bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith i sicrhau gwasanaethau diogel, amserol, effeithiol, teg, effeithlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

| **QSIC 2024.07.24/4.2** | **Rheoli Risg (Cofrestr Risgiau Corfforaethol a Strategol)** |
|---|---|

Cyflwynodd DG y Cofrestrau Risg Strategol a Chorfforaethol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor. Nododd bod y papur yn cynnwys themâu trefniadol i roi sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch cadernid rheoli risg ar draws y sefydliad.

Gan gyfeirio at Risg Strategol 3, rhestrodd DG y newidiadau ers y cyfnod adrodd diwethaf:

CADARNHAODD

- Nodwyd bod adnewyddiad o'r dull ymgysylltu ar y gweill a oedd yn cynnwys trafodaethau gyda'r tîm Gweithredol yn Chwarter 4 o 2023/24.
- Roedd gwerthusiad ar y gweill, gyda chynllun cyflawni i'w gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Busnes ym mis Medi 2024.
- Nodwyd bod Cynllun Strategol Gwyddor Ymddygiad wedi'i ddrafftio, a bod y Tîm Gweithredol wedi cytuno ar strategaeth ar draws y sefydliad ar gyfer ymgyrchoedd cyhoeddus.

Amlygodd SA fod trafodaethau mewnol ar y gweill i benderfynu a oedd y mesurau lliniaru o dan y risg hon yn ddigonol, neu a oedd angen unrhyw beth arall. Holodd SG a oedd newid mewn llywodraeth yn debygol o gael effaith ar ymgysylltu. Nododd SA y gallai ddod ag aliniad rhwng ymagwedd Cymru a'r DU at iechyd a'i benderfynyddion ehangach. Gofynnodd KY i aelodau'r Bwrdd sy'n berthnasol i'r meysydd hyn ddod i mewn i gynorthwyo yn ystod y camau datblygu, a chytunodd i drafod gyda SA y tu allan i'r cyfarfod.

**Cam Gweithredu: SA**

Gan gyfeirio at Risg Strategol 5, nododd DG fod y Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio yn cynnal adolygiad sbotolau ar reolaethau a chamau gweithredu, ac y byddai DG yn mynd i'r cyfarfodydd i gefnogi'r drafodaeth ar y risg.

Tynnodd MK sylw at gyhoeddi adroddiad modiwl un yr Ymchwiliad Cyhoeddus. Nododd y byddai camau'n cael eu cymryd i ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad. Cytunodd MK hefyd i siarad â DG ynghylch a oedd y risg hon yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Rhoddodd DG ddiweddariad hefyd ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Nododd DG fod risgiau wedi cael eu huwchgyfeirio i'r gofrestr ers y cyfnod adrodd diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys y 1541 risg diogelu yn ymwneud â gwiriadau DBS a oedd wedi'u cymeradwyo gan y Tîm Arwain.

Nododd CB fod y cynllun i fynd i'r afael â'r risg hon yn cael ei ailasesu ac y byddai'r newidiadau'n cael eu dwyn yn ôl i'r Tîm Gweithredol Busnes i'w cymeradwyo. Nododd DC fod y risg hon yn gysylltiedig â'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol, ac y byddai CB yn rhoi diweddariad i Neil Lewis yn y cyfarfod nesaf.

**Cam Gweithredu: CB**

**Ystyriodd** y Pwyllgor y ceisiadau newid i'r Risgiau Strategol ac yna eu **cymeradwyo**. Gwnaethant nodi a chymeradwyo'r dull a amlinellwyd mewn perthynas â'r templed adrodd a dangosfwrdd rheoli risg sy'n datblygu, a chymeradwyo'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

CADARNHAODD

CADARNHAODD

| QSIC 2024.07.24/4.3 | Adroddiad Iechyd a Diogelwch Chwarter 1 2024-25 |
|---|---|

Cyflwynodd ND yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer Chwarter 1 2024-25, a oedd yn rhoi:
trosolwg o weithgareddau iechyd a diogelwch a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn. Nododd ND nifer o bwyntiau pwysig o'r adroddiad:

- Roedd tri eiddo wedi methu â chydymffurfio:
    - River House oherwydd problemau dŵr a thrydan. Nodwyd bod gwaith atgyweirio ar gyfer y ddau wedi'i gwblhau. Nododd ND gan fod yr eiddo hwn yn eiddo i Weithrediaeth y GIG y byddai materion yn cael eu hadrodd ar wahân gan ddefnyddio'r un templed ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.
    - Oedi i'r asesiad risg tân yn eiddo Capital Quarter 2 oherwydd gofyniad i'r landlord ei gymeradwyo.
- Adroddwyd am 64 o ddigwyddiadau gydag un wedi'i uwchgyfeirio i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Ni dderbyniwyd unrhyw gais am ymchwiliad pellach.
- Comisiynu hyfforddiant ar-lein i staff sy'n gweithio gartref i sicrhau diogelwch a llesiant staff. Canfu cyfarfod Chwarter 4 y Grŵp Iechyd a Diogelwch gynnydd yng nghydymffurfiad yr hyfforddiant hwn gyda dim ond dwy gyfarwyddiaeth yn is na 54%.

Gofynnodd y Pwyllgor a ellid cynnwys materion yn ymwneud ag awyru yn yr adroddiad hwn wrth symud ymlaen, ac a fyddai staff yn cael nodyn atgoffa awtomatig i gwblhau'r asesiad gweithio gartref. Cytunodd ND i gynnwys adrodd ar waith awyru, a nododd, er bod gweddill yr hyfforddiant yn cael ei wneud â llaw, roedd Arweinwyr y Grwpiau Iechyd a Diogelwch yn goruchwylio'r gwaith o'u cwblhau, ac y byddai staff yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd nes eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod mesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth ac i fynd i'r afael â meysydd gwella a nodwyd.

| QSIC 2024.07.24/4.4 | Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2023/24 a Rhagolwg 2024/25 |
|---|---|

Rhoddodd ND drosolwg o'r Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch ar gyfer 2023/24, a oedd yn rhoi dadansoddiad o lefel perfformiad iechyd a diogelwch ar draws y sefydliad ar gyfer 2023/24. Tynnodd ND sylw at nifer o bwyntiau o'r adroddiad:

- Casgliad ymchwiliadau i bresenoldeb Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) ar draws ystâd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos lefelau boddhaol, a dim yn bresennol lle mae staff yn gweithio. Byddai hyn yn cael ei adrodd i Lywodraeth Cymru drwy'r Bartneriaeth Cydwasanaethau.
- Nodwyd bod archwiliadau Iechyd a Diogelwch wedi'u cyflwyno yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth eiddo â rheoliadau iechyd a diogelwch ac addasrwydd cyfleusterau. Adroddwyd bod yr holl archwiliadau wedi'u cwblhau erbyn Chwarter 1 2024/25 a'u bod wedi cynhyrchu argymhellion a oedd yn cael eu gweithredu, gydag archwiliadau pellach wedi'u trefnu ar ôl eu cwblhau.
- Nodwyd heriau o ran bodloni meini prawf cydymffurfio penodol megis peidio â chael data arolygu adeiladau gan Fyrddau Iechyd pan ofynnir amdano. I fynd i'r

afael â hyn, sicrhawyd cyllid i brynu cronfa ddata system reoli a fyddai'n ei gwneud yn haws i lanlwytho'r wybodaeth ofynnol.
- Mae'r Grŵp Iechyd a Diogelwch wedi gweld cynllun gwaith 2024/25. Gwnaeth y grŵp argymhellion a diwygiadau sydd wedi'u rhoi ar waith ers hynny.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd**, yn seiliedig ar yr wybodaeth a oedd ar gael, bod iechyd a diogelwch yn y gweithle yn cael ei reoli'n rhagweithiol, a'i fonitro trwy archwiliadau, Datix, Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) ac yn cael ei gefnogi gan bolisïau a gweithdrefnau priodol.

**Egwyl**

| QSIC 2024.07.24/4.5 | Adroddiad Blynyddol Brechu Rhag y Ffliw i Staff 2023/24 a Rhagolwg 2024/25 |
|---|---|

Cyflwynodd AC Adroddiad Blynyddol Ymgyrch Brechu Rhag y Ffliw i Staff ar gyfer 2023/24. Roedd yr adroddiad yn manylu ar gyflawni a chanlyniadau'r ymgyrch Brechu Rhag y Ffliw i Staff ar gyfer 2023-24 a'r cynllun arfaethedig Brechu rhag y Ffliw i Staff ar gyfer 2024-25.

Tynnodd AC sylw at y ffaith bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflawni'r ffigurau uchaf ar draws holl sefydliadau GIG Cymru, gyda chyfanswm o 47% o staff a 48.4% o staff rheng flaen wedi'u brechu. Cyflwynwyd mwy o ymarferoldeb i'r Cofnod Staff Electronig (ESR) a oedd yn gwella cywirdeb adnabod staff rheng flaen. Nododd AC bod problem ym mis Hydref 2023 o ran anallu i ddefnyddio System Ddigidol Imiwneiddio Cymru, oherwydd nad oedd y system yn cael ei diweddaru'n rheolaidd ar ôl cael ei chyflwyno fel offeryn adrodd ar COVID. Adroddwyd ar y data imiwneiddio rhag y ffliw ar y system Tarian. Cyfeiriodd AC hefyd at natur ddwys yr ymgyrch ffliw, gyda'r defnydd o nyrsys mewnol Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r arweinydd corfforaethol Atal a Rheoli Heintiau (IPC), yn arwain at lai o adnoddau ar gyfer materion IPC eraill.

Dywedodd AC fod gwerthusiad o'r rhaglen wedi'i gynnal a oedd yn nodi cynllun gweithredol i gomisiynu a defnyddio'r cytundeb lefel gwasanaeth iechyd galwedigaethol i'r lefel uchaf, yn ogystal â newidiadau i'r meini prawf cymhwystra y byddai angen eu cyfleu i staff. Cymeradwywyd y gwerthusiad hwn gan y Tîm Gweithredol Busnes. Nododd AC hefyd fod cyfathrebu'n cael ei gynnal ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru oherwydd pryderon ynghylch y capasiti yr oeddent yn ei gynnig.

Diolchodd DC i AC am y diweddariad, ac fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Ystyried** a **chymryd sicrwydd** o adroddiad diwedd blwyddyn yr Ymgyrch Fewnol i Frechu rhag y Ffliw ar gyfer 2023-24
- **Ystyried** a **chymryd sicrwydd** o'r Cynllun Brechu Rhag y Ffliw Staff Mewnol ar gyfer 2024-25

CADARNHAODD

| QSIC 2024.07.24/4.6 | Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol 2023/24 a Rhagolwg 2024/25 |
|---|---|

Rhoddodd AC drosolwg o Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol 2023/24 a Rhagolwg 2024/25, gan grynhoi'r gwaith a gyflawnwyd yn erbyn y cynllun gwaith a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth gyfredol a gwelliannau a nodwyd. Tynnodd AC sylw at sawl pwynt yn yr adroddiad:

- Ffocws y Grŵp Diogelu ar y gofrestr risg (yn enwedig ar y risg o ran gwiriadau DBS) ac ar gydymffurfiaeth â hyfforddiant gan ei fod wedi'i chofnodi fel 'isel'. Diweddarwyd polisïau hyfforddi yn 2023 a rhoddwyd cymorth i reolwyr gynorthwyo gyda chodi cydymffurfiaeth.
- Roedd 71 o ddigwyddiadau'n ymwneud â diogelu wedi'u cyfeirio at yr Arweinydd Diogelu Penodol am gyngor a chymorth. Roedd y materion hyn yn ymwneud yn bennaf ag iechyd meddwl a cham-drin domestig.
- Nododd y Matrics Aeddfedrwydd Diogelu fod angen 16 o welliannau. Cwblhawyd 15 o'r rhain a chafodd yr olaf ei drosglwyddo i gynllun gwaith eleni.
- Nodwyd 9 amcan ar gyfer cynllun gwaith 2024/25, yn cynnwys ffocws ar waith gwirio gwiriadau DBS a threialu modiwl cyngor diogelu.

Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Cymryd sicrwydd** o'r adroddiad blynyddol Diogelu hwn bod y Grŵp Diogelu a'r Arweinydd Penodol ar gyfer Diogelu (Corfforaethol) yn sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni ei gyfrifoldebau Diogelu yn unol â Deddfwriaeth, Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal a gwelliant parhaus.

| QSIC 2024.07.24/4.7 | Adroddiad Blynyddol Atal a Rheoli Heintiau (IPC) 2023/24 a Rhagolwg 2024/25 |
|---|---|

Cyflwynodd AC yr Adroddiad Blynyddol ar Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer 2023-24, gan dynnu sylw at yr archwiliadau a gynhaliwyd a'r gwelliannau a wnaed trwy gydol y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys:

- Adroddiad ar y targedau i'w cyflawni yng nghynllun gwaith 2023/24. Nodwyd bod 13 wedi'u cwblhau a bod 5 wedi'u gohirio ac yn rhan o gynllun gwaith 2024/25.
- Gwnaed gwaith ar y Cylch Gorchwyl i gryfhau goruchwyliaeth o'r Gofrestr Risg IPC a materion IPC.
- Adroddwyd bod gwaith wedi'i nodi i gynyddu nifer y meysydd a nodir yn yr adroddiad.
- Cwblhawyd archwiliadau amgylcheddol ar draws yr holl safleoedd a reolir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nododd y gwaith hwn broblemau gyda seilwaith a oedd yn anghydnaws â safonau IPC.
- Nodwyd bod angen mwy o sicrwydd ynghylch safonau hylendid staff.

Soniodd AC hefyd am y gweithgarwch ymgysylltu o fewn y Sefydliad a'r cynllun gweithredu a nodau a mentrau gwella arfaethedig ar gyfer 2024-25. Amlygodd hyn:

- Yr angen i wella offer archwilio a rheolaeth/amlygrwydd archwiliadau IPC.
- Disgwylir diweddariad i safonau glanhau Cymru gyfan yn 2024.
- Nodwyd bod y rhan fwyaf o archwiliadau IPC wedi mynd allan i'w cadarnhau, gyda'r weithdrefn rheoli achosion yn dal heb ei chwblhau.

CADARNHAODD

| | |
|---|---|
| • Dywedwyd bod rhaglen hyfforddi wedi'i dechrau i gynyddu'r gallu i gwblhau archwiliadau amgylcheddol pellach.<br><br>Tynnodd y Pwyllgor sylw at y risg na fyddai cabinetau mewn cyfleusterau labordy Categori 3 yn pasio profion selio. Gofynnodd DB i AC roi diweddariad ar hyn yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi.<br><br>**Cam Gweithredu: AC**<br><br>Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod y Grŵp IPC a'r Nyrs Arweiniol ar gyfer IPC (Corfforaethol) yn sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni ei gyfrifoldebau Atal a Rheoli Heintiau. | |
| **QSIC 2024.07.24/4.8** | **Adroddiad Diwedd Blwyddyn Archwiliad Clinigol ac Ansawdd 2023/24, yn ymgorffori Cynllun 2024/25.** |
| Rhoddodd AC drosolwg o'r Adroddiad Diwedd Blwyddyn Archwilio Clinigol ac Ansawdd ar gyfer 2023/24 a chynllun 2024/25, a oedd yn nodi'r archwiliadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn flaenorol:<br>• 7 archwiliad allanol (6 wedi'u cwblhau, 1 yn parhau)<br>• 48 archwiliad mewnol (31 wedi'u cwblhau, 2 wedi'u gohirio, 2 wedi'u cefnu arnynt a 3 wedi'u dileu).<br><br>Nododd AC y nod i ehangu nifer y cyfarwyddiaethau sy'n cymryd rhan mewn archwiliadau clinigol a bod hyfforddiant wedi'i gynllunio yn ystod Chwarter 3 i sicrhau bod staff yn deall y rhesymau dros archwiliadau clinigol a sut maent yn bwydo i mewn i'r Ddyletswydd Ansawdd.<br><br>Nododd CB fod cyllid wedi'i gael i sicrhau system newydd a fyddai'n caniatáu i'r holl archwiliadau a'u camau gweithredu cysylltiedig gael eu gweld gyda'i gilydd ac i nodiadau atgoffa gael eu hanfon yn awtomatig. Cytunodd CB i uwchgyfeirio'r materion yn ymwneud â'r system adrodd bresennol a'r angen am system wedi'i huwchraddio.<br><br>Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:<br>• Cymryd **sicrwydd** ar y cynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol ar gyfer 2023-24<br>• **Cymeradwyo'r** Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol ar gyfer 2024-25 | |
| **QSIC 2024.07.24/5** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| **QSIC 2024.07.24/5.1** | **Polisïau a Gweithdrefnau** |
| Rhoddodd AC drosolwg o'r polisi a'r weithdrefn ddadhalogi ddiwygiedig i'w cymeradwyo a nododd y canllawiau wedi'u diweddaru i sicrhau eglurder i staff ynghylch pa safonau a ddisgwylir.<br><br>Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:<br>• **Ystyried** yr wybodaeth yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb<br>• **Cymeradwyo'r** polisi a'r weithdrefn ddiwygiedig. | |

CADARNHAOD

| QSIC 2024.07.24/5.2 | Cofnodion, Cofnod Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2024 |
|---|---|

Ystyriodd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai 2024 a'u **cymeradwyo** fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo newid dyddiad cam gweithredu QSIC 2024/05 i fis Medi 2024 i gyd-fynd â chyfarfod nesaf y Traws-Bwyllgor.

Ystyriodd y Pwyllgor y diweddariadau i'r cofnod gweithredu a **chymeradwyo** newid y dyddiad ar gyfer y cam gweithredu

| QSIC 2024.07.24/5.3 | Adroddiad Blynyddol Cynllunio at Argyfyngau 2023-24 |
|---|---|

Cyflwynodd TF Adroddiad Blynyddol Cynllunio at Argyfyngau ar gyfer 2023-24, Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y diweddariad i bolisïau Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn ymateb i ymarfer a gynhaliwyd yn ddiweddar. Nodwyd bod yr hyn a ddysgwyd wedi'i roi ar waith yn yr ymateb a'r adroddiad Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys (EPRR).

Nododd TF:

- bod yr adroddiad wedi'i ohirio oherwydd bod newid i'r system/templed adrodd ar y gweill. Cwblhawyd adroddiad yn defnyddio'r templed a gytunwyd yn flaenorol, ond derbyniwyd templed adrodd ac amserlenni gofynnol newydd ar gyfer cwblhau.
- Newid yn yr amserlen adrodd o adrodd blwyddyn galendr i adrodd yn y flwyddyn ariannol.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd yr adroddiad yn ystyried argymhellion adrodd ar COVID. Cadarnhaodd TF nad oedd yn ystyried hynny oherwydd yr amserlenni gofynnol ar gyfer cyflwyno a bod yr adrodd wedi'i gwblhau mewn perthynas â chwestiynau a anfonwyd yn allanol, ond y gallai hynny newid yn y dyfodol.

Diolchodd DC i TF am y diweddariad. Gwnaeth y pwyllgor y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** mewn perthynas â chydymffurfiad y sefydliad â gofynion y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl [2004] a Chanllawiau Craidd Cynllunio at Argyfyngau GIG Cymru [2015].
- Cymryd **sicrwydd** bod Cynllun Ymateb i Argyfyngau Iechyd Cyhoeddus Cymru (Fersiwn 3, 3.1 nawr) wedi'i adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn adborth gan Ymarferiad CYHYRAETH yn Ch4 2023/24.
- **Cymeradwyo** cyflwyniad Adroddiad Blynyddol Cynllunio at Argyfyngau Iechyd NEWYDD i Weithrediaeth y GIG.

| QSIC 2024.07.24/6 | Eitemau i'w Nodi |
|---|---|
| | Traciwr Camau Gweithredu Archwilio |

Nododd LB y Traciwr Camau Gweithredu Archwilio a gyflwynwyd i roi trosolwg i'r Pwyllgor ar gamau archwilio perthnasol a materion o fewn eu cylch gorchwyl. Nodwyd mai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol sydd yn gyfrifol am y gwaith o fonitro gweithrediad y camau gweithredu. Dywedwyd bod yr wybodaeth hon yn cael

CADARNHAODD

ei darparu i bob un o'r Pwyllgorau er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r camau gweithredu perthnasol o fewn eu cylch gwaith.

| **Rhan B** | **Busnes Gweithrediaeth y GIG** |
|---|---|
| **QSIC 2024.07.24/7** | **Datganiadau o Fuddiant** |

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

| **QSIC 2024.07.24/8** | **Adroddiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu Chwarterol Gweithrediaeth y GIG (C1)** |
|---|---|

Cyflwynodd DC RF o Weithrediaeth y GIG i roi trosolwg o'r Adroddiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu Chwarterol ar gyfer Chwarter 1. Tynnodd RF sylw at y canlynol o'r adroddiad:

- Cymeradwywyd cynnwys yr adroddiad gan Uwch Dîm Arwain y Pwyllgor Gwaith ar ôl ei gyfarfod busnes ar 11 Gorffennaf. Nodwyd y byddai cyfarfodydd busnes rheolaidd yn cymeradwyo adroddiadau yn y dyfodol.
- Ni adroddwyd ar unrhyw faterion iechyd a diogelwch nac archwiliadau eiddo yn ystod y cyfnod.
- O ran digwyddiadau, cwynion neu hawliadau, cydnabuwyd bod gwaith ar y gweill i sefydlu cyfrifon a systemau, dyddiadau hyfforddi a hyfforddiant pwrpasol.
- Nodwyd bod un mater diogelu yn cael ei adolygu ar adeg yr adroddiad, ond nid oedd angen unrhyw gamau pellach ac roedd y mater wedi'i gau.

Gofynnodd PV am sicrwydd bod proses ar gyfer ymdrin â chwynion neu bryderon tra bod DATIX yn cael ei sefydlu o fewn y Pwyllgor Gwaith. Nododd RF y byddai materion o'r math hwn yn mynd drwy'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol cyn mynd at yr Uwch Dîm Arwain os yn briodol. Awgrymodd CB gamau i ddod â phartïon perthnasol at ei gilydd i gytuno ar ffordd ymlaen er mwyn cadarnhau'r sicrwydd o gyflawni, ac adrodd yn ôl yng nghyfarfod mis Medi.

**Cam Gweithredu: RF/CB**

Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymryd **sicrwydd** bod gan Weithrediaeth y GIG fesurau priodol i fonitro cydymffurfiaeth ac i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella.
- **Nodwyd** na fu unrhyw ddigwyddiadau adroddadwy yn ystod y cyfnod adrodd.
- **Nodwyd** na dderbyniwyd unrhyw gwynion yn y cyfnod hwn i'w hadrodd i'r Pwyllgor.
- **Nodwyd** na dderbyniwyd unrhyw hawliadau am y cyfnod hwn i'w hadrodd i'r Pwyllgor.
- **Nodwyd** bod gwaith ar y gweill rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gweithrediaeth y GIG i sefydlu hierarchaeth DATIX a darparu hyfforddiant fel y gellir bodloni'r gofyniad hwn.

CADARNHAODD

- Nodwyd bod cyngor yn cael ei geisio gan gydweithwyr diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r isadran Pobl a Datblygu Sefydliadol ar fater ac, yr adroddir ar hynny yn yr adroddiad sicrwydd nesaf i'r Pwyllgor.

| **QSIC 2024.07.24/8** | **Gweinyddiaeth i Gloi** |
|---|---|
| **QSIC 2024.07.24/8.1** | **Cau'r Cyfarfod Cyhoeddus** |
| Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw adborth gael ei anfon at LB, neu drwy ffurflen adborth newydd a oedd wedi'i anfon yng nghyfleuster sgwrs y cyfarfod.<br><br>Dyddiad y cyfarfod nesaf: 16 Medi 2024<br><br>Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben. | |
| *Daeth y sesiwn agored i ben am 13:09* | |

CADARNHAODD